OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 3241 (Cy.283)

TIR, CYMRU
YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*8 Rhagfyr 2004*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 68(7)(b) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ("y Ddeddf")(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi Uchel (Ffioedd) (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i gŵynion a wneir, mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru(**2**), o dan adran 68 o'r Ddeddf i awdurdod perthnasol(**3**) ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

Uchafswm rhagnodedig

2. Rhaid i'r ffi a bennir gan yr awdurdod perthnasol o dan adran 68(1)(b) o'r Ddeddf beidio â bod yn fwy na £320.

(**1**) 2003 p.38.
(**2**) *Gweler* adran 66 o'r Ddeddf ar gyfer ystyr "high hedge".
(**3**) Mae adran 65(5) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant authority" fel yr awdurdod lleol y mae'r tir y mae'r gwrych neu'r berth uchel wedi'u lleoli arno yn ei ardal. Mae adran 82 o'r Ddeddf yn diffinio "local authority", mewn perthynas â Chymru, fel y sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol.